WG35.S.176(a)

# GALARNADAU CALON,

AR OL FY ANWYL, ANWYL GYFAILL,

Y DIWEDDAR

## BARCH. JOHN ROWLANDS,

O

GWMLLYNFELL A CHWMAMMAN,

*Yr hwn a fu Farw Mai* 28, 1834, *yn* 42 *oed.*

"I'w chanu ar y Dôn fwyaf alarus a fedd Sïon."

GAN

LEWIS POWELL,

CAERDYDD.

Galerais, daliodd synder fi.—JEREMIAH.
Canasom alarnad i chwi.—OEN DUW.

FY anwyl gyfaill cofiais,
Yn syn yn wir eisteddais,
Fy nagrau a dywelltais,
Fy ngalar ysgrifenais;
Yn aml rho'is ei enw,
Can's hoff iawn genyf hwnw.

Gwna, mi gofia'r dydd diwedda',
Gwelais 'r ochor hyn i'r bedd;
Clywais hefyd yn cyhoeddi'r
Genadwri fawr o hedd.

YR AIL ARGRAFFIAD.

CAERDYDD:

ARGRAFFWYD GAN LL. JENKNIS.

1834.

*Pris Dwy Geiniog.*

X205 D14618 15186

15186
pWG16.12

DUW sy'n eistedd ar yr orsedd,
Ar yr orsedd fwya'i bri,
Gorsedd uchel, ogoneddus,
Gorsedd yn y nefoedd fry:
Llywodraetha di, fy Arglwydd,
Bydd yn Llywydd, bydd yn Ben,
Boed y ddaear it' yn ufudd,
Megis lluoedd nefoedd wen.

2. Beth yw'r cychwyn sy'n y gwersyll?
Beth yw'r cynwrf rhyfedd sydd?
ROWLANDS ddaeth i gŵr y dyffryn,
Fe sy'n gwaeddi, Barn a fydd.
Mae'r holl bobloedd trwy'r ardaloedd,
Yn dyrfaoedd trwy'r holl wlad,
Yn dweyd, Awn i wrando ROWLANDS
Yn cyhoeddi rhin y gwa'd.

3. Pwy fel fe ar Sinai safai,
Yn y mwg, y niwl, a'r tân?
A'r deg gair, heb un yn eisiau,
Dywedai, Dyma'r gyfraith lân;
Dyma'r *Act*, a thyma'r *Copi*,
Dyma'r drych, a rhyfedd yw,
Dyma roddwyd ar y llechau,
Ysgrifenwyd gan fy Nuw.

4. O fel treiddiai trwy'r cysgodau
At eu sylwedd bob yr un!
O mor hyfryd yr adroddai
Drefn Duw i gadw dyn!
Do, ni clywsom yn mynegu,
Yn y tŷ ag yn y ma's,
Fel y mêl, a diliau hwnw,
Drefn y cyfammod gras.

5. Duw yn nhrag'wyddoldeb boreu,
Rhyw le cyn y cwymp ymhell,
Yno'n caru, yno'n llunio,
Yno'n gwneud cyfammod gwell;
Duw mewn amser yn datguddio
Trefn fawr ei arfaeth Ef;
Saif ei gyngor, saif ei arfaeth,
Gwnant pan syrthio ser y nef.

6. Athrawiaethau'r hen efengyl
A bregethai'n oleu iawn,
Gwaith y Tad, y Mab, a'r Ysbryd,
Yn ein hiechydwriaeth lawn;

UNIV. COLL. OF WALES
LIBRARY
15 NOV

Caru, ethol, prynu, a galw,
Cyfiawnhau, santeiddio'n lân,
Adgyfodi, gogoneddu,
Dyma byngciau'r nefol gân.

7. Dacw JOHN i feusydd Bethle'm,
Yn nhir Juda, hynod le,
A rhyw gannoedd, ïe miloedd,
Aent dan ganu gydag e';
Hwy anghofient fyd a'i bethau,
Byddent yno bawb yn un,
Wrth eu bodd yn chwerthin dagrau,
Yn moliannu Mab y dyn.

8. O fel 'hedai i Galfaria,
Fry i'r mynydd lle cawd iawn;
Dyma'i bregeth fraf y boreu,
Dyma'i eilwaith y prydnawn;
Iawn a drefnwyd, iawn addawyd,
Iawn a roddwyd, dyma fe,
Dyma ddigon, Duw a dynion,
Digon daear, digon ne'.

9. Tra bo *Llynfell* hen ac *Amman*,
Cofir ROWLANDS yn y lle,
O genedlaeth i genedlaeth,
Peri ei goffadwriaeth e':
Codwyd meini coffadwriaeth,
Fel ar gyfer Jeric fawr,
Fod yr Arglwydd wedi 'i ddanfon,
Ewch a gwelwch hwynt yn awr.

10. Ewch i wel'd y pell yn agos,
Ewch i wel'd y marw'n fyw,
Ewch i wel'd y plant yn gwledda
Ar y bwrdd ordeiniodd Duw;
Clywch hen gablwyr yn gweddio,
A rhai mud yn seinio cân;
Clywch y nefoedd fawr yn datgan,
Dyma bentewynion tân.

11. Clywch y plant afradlon hwythau,
Yn gwaeddi, codwn, ac a awn
I *Gwmllynfell* neu *Gwmamman*,
Llon dderbyniad yno gawn;
Y mae ROWLANDS wedi'n gwahodd,
A'r *commissiwn* yn ei law,

'R y'm yn cofio'r sain a'r adsain,
Ni wrthodir neb a ddaw.

12. Dacw'r tad a'r fam yn myned,
A'r plant hefyd gyda hwy,
Y gwyr ieuaingc, a'r gwyryfon,
A hen bobl fwy na mwy;
Dewch medd JOHN ar g'oedd y werin,
Y mae Sodom bron ar dân,
Y mae'r nefoedd fawr yn galw,
Heddyw de'wch, O de'wch ymla'n.

13. Beth yw'ch eisiau, dyma ddigon;
Beth yw'ch newyn, dyma'r wledd;
Beth yw'ch dyled, dyma faddeu;
I'r gelynion, dyma hedd;
Golledigion o bob oedran,
Dyma gadwedigaeth rad;
Chwi rai aflan, dyma'r ffynnon;
Chwi rai euog, dyma'r gwa'd.

14. Ewch medd ef, ac ewch yn hwylus,
Teithiwch megis law yn llaw,
Cenwch salmau, odlau, a hymnau,
Ni gawn ganu ddydd a ddaw:
Fe ga'r dagrau hyn eu sychu,
Ni gawn ddarfod cario'r groes;
Pwyswch chwi, mi bwysaf finnau,
Ar rinweddau angeu loes.

15. Bendith ar y rhai dderbyniodd,
A'r holl rai fedyddiodd e',
Maent yn lluoedd mawr lluosog,
Bendith arnynt ymhob lle;
Rhai yn Nghymru, rhai yn Lloegr,
Rhai yn agos, rhai ymhell;
Taer weddiodd ROWLANDS drostynt,
Beth a all'sai wneud yn well?

16. Mab tangnefedd oedd ei enw,
Hawddgar ddyn, a hawddgar iawn,
Yn ei deulu a'r eglwysi,
A'r ardaloedd oll yn llawn;
Ma'i rinweddau mawr mor aml,
Digia'r nefoedd goffa'i fai,
Can's mae hwnw wedi faddeu,
Gwyn eu byd y cyfryw rai.

17. Boreu iawn y ca'dd ei alw,
Boreu iawn yr urddwyd e',
'R wyf fi'n cofio am yr oriau,
Cofio hefyd am y lle;
Cofiaf lawer oedfa hyfryd
Gefais yn ei gwm'ni llon:
Ac 'rwy' bron yn tori nghalon
Feddwl ei fod dan y don.

18. Gwraig ga'dd ef o ferched Silo,
Un o dylwyth tŷ ei Dad,
Nid o ferched Canaan ydoedd,
Chwaith nag un o estron wlad;
Do fe'i rhoddwyd gan yr Arglwydd,
Bendith ydoedd y fath rodd,
Un o deulu mawr yn Israel,
Dywedaf fythoedd, bendith oedd.

19. Nid rhyw groes ond dysglaer goron,
Nid rhyw wae ond gwynfyd pur,
Ydoedd JANE i'w hanwyl briod,
Tra bu yn yr anial dir.
'Rwy'n galaru yn ei galar,
Tristwch i'm ei thristwch mawr;
Pwy gysura Mrs. ROWLANDS?
Neb ond Arglwydd nef a llawr.

20. Arglwydd, cofia di am dani,
Gwna â hi yn rhyfedd iawn;
Bydd yn bob peth, dyna ddigon,
Iddi'r boreu a'r prydnawn:
Bydd yn haul, a bydd yn darian,
Bydd yn Briod, bydd yn Dad,
Bydd yn Dduw tragwyddol iddi,
Cofia hi byth yn rhin y gwa'd.

21. Angeu, angeu, clyw, pa'm toraist
Y fath undeb, dw'ed i mi?
'R wyt ti'n elyn, gallaf brofi,
Gelyn wyt i'n teulu ni.
Ond fe'th faeddwyd ar Galfaria,
Gan ein Brawd, a'n Priod cu;
Ac mae boreu mawr yn dyfod,
Cofia, ninnau'th faeddwn di.

22. Byd y cystudd mawr y'm ynddo,
Byd yr wylo a'r tristâu;

Byd o alar ac och'neidio,
Byd y methu llawenhau;
Erbyn darfod â gofidiau,
Rhyw ofidiau'n union gawn;
Erbyn sychu dagrau'r boreu,
Dagrau chwerwon y prydnawn.

23. Dyma ddull y byd y'm ynddo,
Dyma'i hanes boenus e',
O'r hen drosedd yn Mharadwys
Hyd yn awr, ymhob rhyw le:
De a Gogledd, a Gorllewin,
D'wedaf Dwyrain gyda hyn;
Mae rhyw fyrddiwn o fyrddiynau,
'N awr yn eistedd lawr yn syn.

24. Nid wyf finnau heb ryw synu,
Nag wyf fi heb groesau blin;
Nid wyf fi heb ddyfroedd chwerwon
Yn y cwpan wrth fy min;
Gwn am Mara nid trwy glywed,
Ond trwy brofiad chwerw iawn;
Chwerwach Mara nag a wybu
Israel yn ei hanes cawn.

25. At newyddion chwerwon, chwerwon,
Glywais trwy'm trafferthus daith,
Clywais fod fy anwyl gyfaill
Yn y trag'wyddoldeb maith:
Marw ROWLANDS, oedd y newydd,
Doddai'r adamant a'r dûr;
Pawb yn synu, ac yn gofyn,
A yw'r newydd hyn yn wir.

26. Pan mynegwyd i'm ei farw,
'R oedd i mi fel surion ddail;
Rhoddodd adflas ar y cwbl,
Nid oedd hyfryd oleu'r haul:
Pob peth wedi colli eu llewyrch,
Pob peth wedi newid gwedd,
Wedi tori gan wylofain,
O! mae ROWLANDS yn y bedd!

27. Minnau ar derfynau'r rhandir,
Yno'n griddfan ddydd a nos;
ROWLANDS, ROWLANDS, dd'wedwn [ganwaith,
Dyma sydyn boenus lo's.

Ti'm gadewaist er yn ieuangach,
Er yn gryfach, er yn well;
Ac a aethost i'r briodas,
I blith cwm'ni llawer gwell.

28. P'odd y teithiaf ffordd bu farw,
P'odd edrychaf ar y lle,
P'odd dioddefaf neb yn adrodd,
Dyma'r man y cafwyd e';
Wedi syrthio ar y ddaear,
Ac a'i wyneb tua'r llawr,
Bron fel Ioan y Difinydd,
Gynt wrth wel'd y Brenin mawr.

29. B'le'r a'i 'nawr i 'mofyn ROWLANDS?
Nid i dŷ ei dad a'i fam,
Nid i'r *Neuaddlwyd* na *Llanbed'*,
Na *Chaerfyrddin*, gwyddoch pa'm;
Nid i'r Athrofeydd bu ynddynt
Ryw flynyddau maith o'r bla'n,
Nid at PHILLIPS, nid at PETER,
Darfu hyny, darfu'n lân.

30. *Llanybri*, nid gwiw myn'd yno,
Ni cheir yno mo hono fe;
*Pant-yr-athro*, a *Phencelli*,
Yn gysurus gwelais e';
Mae er's mwy nâ deuddeg mlynedd,
Meddant, wedi'n gadael ni;
Wylsom ddagrau, fel cafodau,
Wrth ei golli, gwyddoch chwi.

31. *Brystau* hefyd nid yw yno:
Fe fu yma, meddant hwy,
Yn cyhoeddi, fel rhyw angel,
Hen rinweddau marwol glwy':
Dinas *Llundain*, cofiaf hyny,
Bu'n pregethu rhin y gwa'd,
Gyda'm hen gyfeillion ffyddlon,
Bloeddiai, iechawdwriaeth rad.

32. Och! *Brynbrain** sydd wag o hono,
Ond mae wylo ar ei ol;
Mae'r perth'nasau ffyddlon tirion
Wedi'i golli fel o'u col.
Fe'i derbyniwyd gan y teulu,
Do yn wir, fel angel Duw,

* Tŷ ei Dadynghyfraith.

Cafodd barch fel gwas yr Arglwydd,
Proffwyd, meddant, proffwyd yw.

33. Af i'r *stydu* nid yw yno,
Nac yn un man yn ei dŷ;
Holaf bawb, atebant hwythau,
Nid yw ar ein daear ni.
Nid *Corstô*,* na'r ardd, na'r meusydd,
Er mor hyfryd gwnawd y lle,
Oedd yn artrau addas iddo,
Ond trag'wyddol deyrnas ne'.

34. Os rho'i nghlust ar hyd y ddaear,
Chlywa'i ddim o swn ei dro'd,
Os arosa'i iddo'n rhywle,
Welaf byth mo hono'n d'od;
Os edrychaf 'nawr am dano,
Welaf ddim o'i siriol wedd;
Os caf fyned i *Gwmllynfell*,
Welaf ddim ond gwel'd ei fedd.

35. Coll'som ROWLANDS, do ni coll'som,
Dywedwn, dyma golled fawr;
Y mae'r defaid oll yn cwyno,
Nid yw'n bugail yma'n awr:
Ond mae perchen mawr y defaid
Etto'n fyw, a byw fe fydd;
Fe ofala, gwna, am danynt,
Ganol nos a chanol dydd.

36. Colled gwlad, a cholled teulu,
Colled pawb ynghych y lle,
Colled fawr yn yr eglwysi,
Ydoedd colli ei lafur e':
Mae'r Gymmanfa fawr flynyddol
Fel a'i dagrau ar ei grudd;
A holl gyrddau gwlad Gorllewin,
Heddyw'n wylo o mor brudd.

37. Pa'm rhaid colli o Forganwg,
Weithiwr cywrain fel efe;
Pa'm ar ganol y cynhauaf,
Pa'm nad arall yn ei le;
Nid oes wylo yn y nefoedd,
Ni bu yno wylo erio'd,
Onide 'rwy'n meddwl b'asai
Wylo heddyw yno'n bod.

---

* Ei annedd-dy.

38. Pa'm bu'r milwr farw allan?
Pa'm heb un dyn gydag e'?
Pa'm ynghanol torf luosog,
O'i gyfeillion cylch y lle?
Pa'm yn ymyl brodyr anwyl,
A chwiorydd lawer iawn?
Pa'm heb gyfleu i ro'i ffarwel?
Pa'm bu farw cyn prydnawn?

39. I ni gael rhyw 'chydig oriau,
Ar derfynau'r anial maith,
I gael adchwanegu'n siarad,
Am ogoniant pen y daith;
A chael 'madael, er dan wylo,
Ond nid wylo fel sy 'nawr;
Dyma'n trefn ni, fy Arglwydd,
Ond nid trefn nefoedd fawr.

40. Ni ddymun'sem gael ei gadw
Dros flyneddau lawer iawn;
Degau'n wir, os nid ugeiniau,
A llafurio'i hwyr brydnawn;
Dyma'r flwyddyn, medd y nefoedd,
Dyma'r mis, a thyma'r dydd,
Dyma'r man, yr awr, a'r fynud,
I ro'i JOHN yn gwbl rhydd.

41. Ni feddyliwyd, na ddo, na ddo,
'R boreu cefnodd ar ei dre',
Mae ei gorff a ddeuai'n fuan,
Heb yr enaid gydag e':
Fel gwraig Jacob buost farw,
Ar y ffordd wrth deithio'r llawr,
'N lle d'od adreu at dy deulu,
E'st i'r trag'wyddoldeb mawr.

42. Beth yw'r gwisgoedd duon yna?
Pwy yw'r dyrfa ddu ei gwedd?
Pa'm mae pawb yn nyfnder galar?
ROWLANDS sydd yn ngwaelod bedd;
Fe'm archollwyd, 'rwy' heb wella,
Ond mae arnaf lawer clwy';
Nid wy'n disgwyl dod yn holliach,
Nes o'r anial fyned trwy.

43. O fy Arglwydd, maddeu imi
Fy nheimladau dynol câs;

Bron ymddigio am it' alw,
Un mor ffyddlon ar y ma's.
Beth! myfi yn grwgnach mynud,
Yn erbyn trefn fawr fy Nuw!
Gall wneud pob peth fel y myno,—
Lladd neu ynte cadw'n fyw.

44. Rwy'n dych'mygu clywai'r nefoedd
Mewn un swn yn gwaeddi ma's,
Y mae *enaid* ROWLANDS yma,
Gydag etifeddion gras;—
Gyda'r cyntaf anedigion,
Sy'n gwisgo eu coronau aur,
Ac yn canu'r gân drag'wyddol,
Fel o'r blaen, i Faban Mair.

45. Beth yw huno yn yr Iesu,
Gwyddost beth yw hyny 'nawr:
Beth yw afon yr Iorddonen,
Beth yw'r tragwyddoldeb mawr,
Beth yw byw o fewn paradwys,
Beth yw canu'r newydd gân,
Beth yw cwmni'r pererinion,
Fyrdd na welaist ti o'r bla'n.

46. Beth yw breiniol byrth y ddinas,
Beth y cyflwr, beth y lle.
Mae Jehofa, a'r angylion,
A'r holl seintiau gydag e',
Tu fewn i'r llen, a'r cedyrn furiau,
Yn nhrigfanau tŷ dy Dad.
Gyda'r myrddiwn o fyrddiynau
Olchwyd, gànwyd, yn y gwa'd.

47. Gweled Duw, 'tifeddu'r deyrnas,
Gwyddost heddyw beth yw hyn,
A thrag'wyddol bwys gogoniant,
Sefyll fyth ar Sïon fryn ;
Lle mae sylwedd y Shecina,
Y crochan aur, a'r manna mân;
Gwyddost heddyw, nid mewn cysgod,
Ond mae'r sylwedd o dy fla'n.

48. Mae rhyw luoedd, pwy all rifo ?
Oddifewn Caersalem dre,
Teulu'r Tad, y Mab, a'r sbryd,
Yn y ddinas lle mae e'.

Neb ond plant yr hen addewid,
  Y dorf a roddwyd gan y Tad,
I Gyfryngwr mawr y Tes'ment,
  I gael eu golchi yn ei wa'd.

49. 'R wyt ti'n gwel'd yr Archoffeiriad,
  Yn ei wisgoedd, heb ei ail,
A'i wynebpryd dysglaer golau,
  Yn llewyrchu fel yr haul;
Ac yn gwel'd y nef yn plygu,
  Ac ymgrymu bob yr un;
Ac yn clywed pawb yn canu
  Hen ganiadau Mab y dyn.

50. A ddaeth enaid DAVIS atat?
  Yr hen DDAVIS o'r *Alltwen*,
I gael clywed peth o'r hanes,
  Sut mae yma îs y nen.
Nid wy'n gwybod, nid yw'n perthyn
  I mi yma wybod chwaith,
Sut mae bodau perffaith ddedwydd,
  Yna yn nhrag'wyddoldeb maith.

51. EVANS, *Soar*, ac o *Rhaiad'*,
  Ni anghofiaf y rhai hyn;
MORGANS hefyd, draw o'r *Pentre'*,
  Gofiaf tra b'wyf yn y glyn;
Yntau LEWIS, o *Dredwstan*,
  ROBERTS hen, o *Lanbrynmair;*
HAMMERTON, o *Newton* hefyd,
  Gyda'r dyrfa yno cair.

52. Gwyn eich byd fy hen gyfeillion,
  Draw o swn y byd a'i bo'n,
Heb un gofid yn eich blino,
  Nag un gair am dano o son,
Sabboth yw, cewch fythol orphwys,
  Jubil fawr yn rhin y gwa'd,
Carcharorion wedi diangc,
  Yn rhyddion byth yn nhir eu gwlad

53. Ffarwel, ffarwel, fy rhai anwyl,
  Sut y dywedaf, O mae rhaid,
Buoch i mi er yn blentyn,
  Megis un yn hynod blaid;
Och mi'ch collais o fy ymyl,
  O fy ngolwg, o fy nghlyw,

Ond mae'n debyg, eithaf tebyg,
Cofiaf chwi tra byddwyf byw.

54\. Fy nghyfeillion trwy'r eglwysi
Sy'n aelodau yn y lle,
A'r holl ardal, cofiwch, cofiwch,
Cofiwch am ei lafur e',
Mi ddymunwn eich cysuron,
Megis afon gadarn gry',
Mi ddymunwn i chwi bob peth,
Fedd y ddae'r a'r nefoedd fry.

55\. Rhoddwch faen, neu rhoddwch farbl,
Gwn fe'i haeddodd ar ei fedd;
A lafaro trwy'r holl oesau,
Yma gorwedd cenad hedd,
Wrth y mur bu'n uchel floeddio,
Fel rhyw gloch i gyd o aur,
Am y baban gynt a gafwyd,
Draw yn Bethl'em gyda Mair.

56\. Clywch riddfanau'r Dywysogaeth,
Edrychwch ar ei hansawdd hi,
Synwch, synwch, a rhyfeddwch,
Wylwch ddagrau mawr yn lli.
Y mae gweinidogion bywyd,
Yn och'neidio'n brudd eu gwedd,
Saif yn syn yr holl wersylloedd,
Chwer'der roddwyd ar ei hedd.

57 Dyma nghân o ganol dagrau,
Galar gân O gelwch hi,
Dyddiau galar ydyw'r dyddiau,
A galaru'n fawr wyf fi,
Ni chyflawnir dyddiau'm galar,
Nes cyflawni dyddiau'm hoes;
Deg diwrnod, dim ond hyny,
Drefnwyd i mi gario'r groes.

58\. Fe ddaw'r dydd cawn godi'n penau,
A thrag'wyddol lawenhau,
Cawn, ni gawn fyn'd i'r briodas,
Cyn y caffo'r drws ei gau;
Sychir byth ein dagrau cyntaf,
A diweddaf, uwch y nen;
D'weded pawb o deulu'r galar,
Minnau ddywedaf byth, Amen.

---

ARGRAFFWYD GAN LL. JENKINS, CAERDYDD.